

# Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

## Cyfarfod Blynyddol 2015/2016

cyngor ar  
bopeth

citizens  
advice

Sir Ddinbych  
Denbighshire

29 Medi 2016

# Tudalen Gynnwys

Adroddiad y Cadeirydd.....	Tudalen 3
Adroddiad y Prif Weithredwr .....	Tudalen 3
Swyddfeydd Lleol	
Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy.....	Tudalen 4
Y Rhyl a Phrestatyn.....	Tudalen 5
Dinbych.....	Tudalen 6
Adroddiad y Tîm Hyffordiant.....	Tudalen 7
Ymchwil ac Ymgyrchoedd	
Ymgyrchoedd cenedlaethol.....	Tudalen 8
Ymgyrchoedd Lleol.....	Tudalen 8
Ein Prosiectau.....	Tudalennau 9 & 10
Ystadegau.....	Tudalen 11
Tîm Dyledion.....	Tudalen 12

# Adroddiad y Cadeirydd

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol arall i Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ond rydym wedi dod trwyddi yn dda ac wedi gwella ein sefyllfa ariannol.

Rydym ni wedi gweld llwyddiant ysgubol wrth weithio mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint a Chyngor ar Bopeth Conwy a'n gwaith fel is-gontractwyr i'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau.

Mae gan CAB Sir Ddinbych bresenoldeb cryf yn y gymuned ac mae ein perthynas agos â'r awdurdod lleol ynghyd â'n cysylltiadau â chynghorau tref a chymuned yn hanfodol bwysig i'r gwaith rydym ni ei wneud. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn yn y dyfodol.

Yn y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ymddiswyddodd Brian Thomas fel Cadeirydd. Yna ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf ymddiswyddodd o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Hoffwn ailadrodd ein diolch iddo am y cyfan mae wedi ei wneud ar ran CAB Sir Ddinbych,

nid yn unig fel Cadeirydd am dair blynedd ond hefyd ei gyfraniad fel aelod o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr am flynyddoedd lawer.

Gwnaeth Alan Bodicoat, Cadeirydd blaenorol CAB Sir Ddinbych, ymddiswyddo o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr hefyd. Cyhoeddwyd hyn yn y Cyfarfod Blynyddol diwethaf. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Alan am y cyfan a gyfrannodd i Gyngor ar Bopeth.

Mae gennym ni Ymddiriedolwr newydd, Dafydd Ifans, ac rydym yn gobeithio recriwtio rhagor yn y dyfodol agos. Rwy'n hyderus y bydd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn parhau i dyfu a darparu gwasanaethau i'r rhai mewn mwyaf o angen yn ein cymuned.

Hoffwn, ar ran y Bwrdd, ddiolch i'n cyllidwyr am eu cefnogaeth barhaus a'n staff a'n gwirfoddolwyr am eu holl waith caled. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr.

**Alastair Morgan** Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr

# Adroddiad y Prif Weithredwr

Mae'n her bob amser cwmpasu ein holl lwyddiannau a'r hyn a gyflawnwyd mewn adroddiad blynyddol. Gobeithiaf fod adroddiad eleni yn dangos yn ddigonol unwaith eto y gwaith rhagorol a wnaed gyda'n gilydd.

Eleni rydym ni wedi:

- Ennill contractau newydd
- Cadw contractau presennol
- Cynorthwyo mwy na **6709** o bobl â mwy na **8270** o ymholiadau
- Recriwtio **26** o wirfoddolwyr newydd
- Cynorthwyo cleientiaid i hawlio mwy na **£5 miliwn** mewn budd-daliadau a chredydau treth
- Helpu cleientiaid i negodi dros **£7 miliwn** o ddyled
- Peilota rhaglenni a mentrau newydd ar ran Cyngor ar Bopeth
- Ymgyrchu a lobio llywodraeth leol a chanolog ar ran ein cleientiaid
- Cynnal a chryfhau ein rhwydwaith o asiantaethau partner gwirfoddol a statudol

Sicrwydd Gwybodaeth:

Mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi ymrwmo i reoli risg gwybodaeth a chewch grynoded o'r prif bwyntiau a'r dulliau rheoli drwy gyflwyno cais i'r perwyl hynny i'r Prif Weithredwr.

Beth sy'n ein sbarduno i gyflawni hyn? Yr angen i ymestyn i gyrraedd cleientiaid newydd, cynyddu'r mynediad i'n gwasanaethau, helpu a chynorthwyo'r bobl sydd fwyaf o'n hangen a gwella a datblygu'r gwasanaethau a gynigir i'n cleientiaid.

Ers 1 Ebrill 2016 ni yw'r prif ddarparwydd cyngor ar fudd-daliadau lles ac arian ar ran Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r berthynas newydd hon gyda'n awdurdod lleol eisoes yn gynhyrchiol, a nawr rydym ni wedi ein cynnwys ar lefel strategol yn cynorthwyo i gynllunio sut i fynd i'r afael â thlodi, goresgyn tlodi tanwydd, lleihau digartrefedd a pharatoi i dderbyn ffoaduriaid bregus o Syria. Edrychwn ymlaen at ddatblygu ac ehangu eich gwasanaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Bob diwrnod mae ein cymunedau yn wynebu heriau a allai effeithio ar unrhyw un ohonom ni, ar unrhyw adeg yn ein bywydau. Rydym ni yng Nghyngor ar Bopeth Sir Ddinbych – a'n cyllidwyr a'n cefnogwyr – yn deall hyn ac yn gwybod am werth enfawr y weithred ddynol iawn o bobl yn helpu pobl. Rydym ni'n edrych ymlaen at barhau i ddarparu'r cymorth hwn am flynyddoedd i ddod.

**Lesley Powell** Prif Weithredwr

# Swyddfeydd Lleol

## Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy

Rydym ni'n parhau i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb o Ganolfan Ni ar ddydd Mercher yng nghanol Corwen, gyda'r dewis i ffonio swyddfa Rhuthun ar adegau eraill a threfnu ymweliad â'r cartref lle bo angen.

Eleni roeddem ni'n rhan o Grŵp Menter Corwen 'Pobl i Bobl' a sefydlwyd gan Fwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych. Y nod oedd cynorthwyo cymunedau i adnabod ac adeiladu ar eu cryfderau eu hunain a dod â thrigolion ynghyd â darparwyr gwasanaethau i weithio gyda'i gilydd.

Fe wnaethom ni symud i swyddfa yng nghanol y gymuned eleni gan ddarparu gwasanaeth yn Llyfrgell Llangollen un diwrnod llawn yr wythnos ar ddydd Mawrth. Mae'r symud i'r Llyfrgell yn ein galluogi i weithio gyda staff y llyfrgell a'r 'siop un alwad' wedi'u lleoli yn yr un adeilad. Ymddengys bod hwn yn leoliad sy'n cael ei ffafrio gan ein cleientiaid.

Eleni rydym wedi ein cadw'n brysur gyda'r newid o ffurflenni Lwfans Byw i'r Anabl i ffurflenni Taliad Annibyniaeth Bersonol i'n cleientiaid.

Wrth i fwy a mwy o ffurflenni fod ar gael ar y we, rydym ni wedi medru cynorthwyo ein cleientiaid i lenwi'r ffurflenni digidol ar-lein yn y swyddfa.

Penderfynodd nifer o gynghorwyr profiadol adael eleni. Gill Jones ar ôl 13 mlynedd o wirfoddoli, Jean Amos ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth a Margaret Lloyd, ein gweithiwr tribiwnlys budd-daliadau, ar ôl chwarter canrif o wirfoddoli. Nid oedd Ben Goldstein wedi bod gyda ni am gyfnod hir iawn ond roedd yn aelod amhrisiadwy o'r tîm ond mae wedi penderfynu mynd i addysgu pobl ifanc ac mae wedi sicrhau ei swydd gyntaf fel athro. Mae hyn wedi cynrychioli newid mawr yn ein tîm ni, ond rydym ni'n croesawu'r holl wirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd yn fawr iawn.

**"Roedd yn haws datgelu'r sefyllfa i ddieithriaid gan fod cymaint o gywilydd ynghylch mynd i'r fath lanast. Fe wnaeth y driniaeth hyfryd ges i gan staff Cyngor ar Bopeth fy nhawelu a rhoi gobaith i mi ar gyfer y dyfodol."**

**Diane**, cleient yn Rhuthun

Hwn yw fy adroddiad olaf fel Rheolwr Rhuthun gan y byddaf yn ymddeol ar ôl pum mlynedd ar hugain o wasanaeth gyda Chyngor ar Bopeth.

Dechreuais yn Rhuthun fel Cymhorthydd Gweinyddol gwirfoddol i'r Rheolwr a'r swyddfa, gan symud ymlaen i fod yn Gynghorydd, yna'n Rheolwr Gwasanaeth Ffôn y tu allan i oriau swyddfa. Roeddwn i'n Ddirprwy Reolwr ac am y pedair blynedd ar ddeg ddiwethaf yn Rheolwr, gan rannu'r swydd i ddechrau gyda'r diweddar Eira Ellis.

Rydw i wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod fy nghyfnod, ond rydym ni wedi croesawu'r rhain bob tro er mwyn sicrhau gwell gwasanaeth i'n cleientiaid ni. Does yna ddim teimlad gwell na phan fo cleient yn cerdded i mewn i'r swyddfa gydag ysgwyddau trymion ac yn gadael gyda'r pwysau wedi'i godi.

Rydw i wedi mwynhau fy chwarter canrif gyda CAB ac wedi cael boddhad mawr yn ymgymryd â'r heriau a gyflwynwyd. Rydw i wedi dysgu llawer, wedi gwneud llawer o ffrindiau ac mae gen i lu o atgofion a fydd yn aros gyda mi am byth, a nawr rydw i'n edrych ymlaen at fy ymddeoliad.

Ni fyddai'n briodol i mi ddiolch i unrhyw unigolyn ar yr adeg hon, gan fy mod i wedi mwynhau cwmni pawb, ond hoffwn ddweud diolch arbennig i'r holl wirfoddolwyr am eu cwmni, ymroddiad a'u proffesiynoldeb i'r gwasanaeth.

Rwy'n gadael gan wybod y bydd CAB Sir Ddinbych yn wynebu unrhyw heriau newydd gyda'r brwdfrydedd a welwyd yn y gorffennol, gan ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n cleientiaid.

Dymuniadau gorau i bawb yn y dyfodol.

**Judith Bennett**, Rheolwr Rhuthun

**Meddai Ben**, gwirfoddolwr yn Rhuthun:

**"Mae gwirfoddoli gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn ffordd ragorol i gael profiad a defnyddio profiad blaenorol er budd y gwasanaeth, gan ddarparu cymorth a chyngor amhrisiadwy i ystod eang o gleientiaid. Dydych chi ddim yn gwybod o anghenraid beth fyddwch chi'n ymdrin ag o ar unrhyw ddiwrnod penodol, ond un peth sy'n sicr, ni fydd yn ddiflas!"**

# Y Rhyl a Phrestatyn

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn heriol ac yn gyffrous yr un pryd.

Bu'n heriol gan ein bod yn gweld yn gynyddol effaith Diwygio Lles ar fywydau pobl a'r penderfyniadau rhwystredig ac annealladwy weithiau o ran dyfarnu neu beidio â dyfarnu Taliad Annibyniaeth Bersonol sy'n arwain at heriau cynyddol i ni.

Bellach mae gennym ni ein gweithiwr achos arbenigol profiadol, lain, yn ein swyddfa yn y Rhyl sy'n darparu gwasanaeth arbenigol, sydd wedi derbyn marc ansawdd, i'n cleientiaid.

Y tueddiad sy'n peri pryder yw'r cyfnod amser o gleientiaid yn cyflwyn cais am fudd-dal i ddatrys eu hachos, a'r effaith amlwg ar eu lles, eu hamgylchiadau ariannol ac, mewn salw achos, colli eu cerbyd Motability, sy'n aml yn arwain at arunigedd a phryder dybryd.

Rydym ni'n gyffrous iawn wrth i'r gwaith adeiladu hir ddisgwyliedig o ran y Ganolfan Gofyn ddechrau, gyda'r 'rhan gyntaf' ar waith yn awr a'r 'ail ran' i fod o ddechrau ym mis Medi. Ariennir y datblygiad gan grant Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru y gwnaed cais amdano gan ein landlord, yr Eglwys

**Meddai Paul**, gwirfoddolwr yn y Rhyl:

**Yn aml ni ydi'r un olaf sy'n sefyll, a byddwn yn parhau i sefyll yn gadarn!**

**Meddai Lucci**, gwirfoddolwr yn y Rhyl:

**Mae'n lle gwych i fod yn rhan ohonno!**

**Meddai Jeff**, gwirfoddolwr yn y Rhyl:

**Rydw i'n falch o ddweud ein bod yn parhau i fod am ddim, ac yn mynd y filltir hwanegol bob tro!**

Ddiwygiedig Unedig, mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Mae'n siwr y bydd rhywfaint o darfu arnom ni, ond nid ydym yn bwriadu gadael yr adeilad. Byddwn yn parhau ar y safle trwy gydol y gwaith adeiladu os yn bosibl. Ar ôl dweud hynny, rydym ni'n sylweddoli y byddwn yn eistedd ar 'rolr-costyr' gyda'n siacedi llachar a'n hetiau caled wrth law.

Fodd bynnag, ar nodyn difrifol, rydym ni wedi cynllunio ar gyfer hyn ac ymestyn ein horiau agor yn ein gwasanaeth allgymorth ym Mhrestatyn i 4pm. Bydd gwasanaeth allgymorth yn dechrau ym Modelwyddan o 8 Medi gyda'r posibilrwydd o agor gwasanaeth allgymorth yn Llanelwy a Rhuddlan cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r gymuned yn arbennig o lwcus cael ein tîm ymroddedig o wirfoddolwyr sy'n parhau i roi swm enfawr o'u hamser personol i gadw ar y blaen i'r galw diddiwedd er mwyn helpu'r rhai heb 'lais' neu heb yr arian i sicrhau cymorth proffesiynol. Felly diolch o galon, a gostyngedig iawn, i bob un o aelodau fy 'mrigâd.'

**Sue Parry** Rheolwr y Rhyl

**Mae diwygiadau lles yn cael effaith anghyfrannol ar Sir Ddinbych gyda'i phocedi â lefel uchel o hawlwr budd-daliadau megis Gorllewin y Rhyl (sydd â'r cyfrif hawlwr uchaf ar 67% o'r rhai oedran gwaith). Bydd rhewi'r cynnydd o ran rhai budd-daliadau penodol yn gwneud rheoli arian yn anoddach fyth yn y dyfodol.**

**"Diolch yn fawr iawn Paul a phawb yn CAB y Rhyl am eich cymorth a'ch cyngor amhrisiadwy. Fyddwn i ddim wedi medru gwneud hyn hebddoch chi!"**

**cleient yn y Rhyl** a gynorthwywyd ac a enillodd setliad o £12,000 mewn Tribiwnlys Cyflogaeth

# Dinbych

Bu hon yn flwyddyn gynhyrchiol iawn. Rydym wedi cael criw newydd o wirfoddolwyr ac mae'r protocol hyfforddiant newydd yn golygu bod ein gwirfoddolwyr yn medru symud i'r rota yn gyflymach ac yn medru cynghori cleientiaid, dan oruchwyliaeth, tra bo'u hyfforddiant yn parhau. Rydym ni wedi newid a gwella sut mae cleientiaid yn cael gafael ar ein gwasanaeth, sy'n galluogi cleientiaid i gael cyngor yn gynharach a datrys problemau yn gyflymach.

Rydym ni'n lwcus iawn ein bod ni'n medru denu criw o bobl mor ymroddgar ac sy'n gweithio mor galed i helpu ein cleientiaid.

Mae'r newidiadau yn deillio o ddiwygiadau lles wedi golygu cynnydd i'n llwyth gwaith arferol oherwydd nifer y bobl sy'n cael eu newid o dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl i Daliad Annibyniaeth Bersonol. Mae'r gwirfoddolwyr wedi derbyn y dasg ac wedi

gweithio'n hynod o galed i sicrhau eu bod yn medru darparu'r cyngor a'r cymorth a oedd ei angen gan ein cleientiaid.

Cynhaliwyd y Gyfnewidfa Gwisg Ysgol gyntaf yn 2015 a chynorthwyodd y staff a gwirfoddolwyr i godi arian ar gyfer cyfnewidfa 2016 a gwnaeth hyn, gyda chymorth Clwb Rotari Rhuthun, Cyngor Tref Dinbych a Bwrdd Crwn Dinbych, ein galluogi i ddarparu grantiau i blant sy'n mynd i'r ysgol uwchradd â'u rhieni ar gyflogau isel ond ddim yn gymwys ar gyfer grantiau awdurdod lleol. Rydym ni hefyd wedi annog teuluoedd i ymuno yn y prosiect ailgylchu rhagorol hwn sy'n arbed arian ac yn tynnu peth o'r straen oddi ar deuluoedd trwy ddarparu gwisg ysgol fforddiadwy.

**Winnie Lawson**, Rheolwr Dinbych

**"Y cyfan fedra' i ei ddweud ydi diolch i chi am fod yno."**

**Mary**, cleient yn Ninbych

**"Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cymorth. Heb eich help a'ch dealltwriaeth chi, fy nheimladau, fy salwch, mi fyddwn i'n parhau i stryglu. Rydw i wedi bod yn gwerthu fy eiddo mewn siopau ponio - nawr mi fedra i gael fy mhethau yn ôl - prynu dillad newydd, talu fy nyledion a chadw ar ben y biliau trydan a nwy. Nawr mae gen i well ansawdd bywyd, yn hytrach nag eistedd yn yr oerfel. Nawr bydd gen i 'boots' newydd cynnes, a dillad thermol. Fedra' i ddim diolch digon i chi. Diolch o galon!"**

**Anne**, cleient yn Ninbych

**Dyweddodd Kirsten**, gwirfoddolwr yn Ninbych:

**"Rydw i'n hoffi gwneud newid cadarnhaol i fywydau pobl. Rydw i'n hoffi gweithio mewn amgylchedd gefnogol gyda phobl o'r un anian."**

**Meddai Nick**, gwirfoddolwr yn Ninbych:

**"Mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn rheoli eu gwirfoddolwyr yn dda, ac yn defnyddio'r amser a roir yn ddoeth. Mae'r rôl yn rhoi boddhad mawr ac yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r gymuned ehangach."**



# Tîm Hyffordiant

Eleni rydym ni wedi derbyn 20 o wirfoddolwyr newydd ac mae 16 o'n hyfforddeion wedi llwyddo i gael eu cymwysterau Aseswr Porth a Chynghorydd.

Roeddem ni ymhlith y Cyngor ar Bopeth cyntaf i ddarparu hyfforddiant Trais a Chamdriniaeth ar sail Rhyw i'n holl wirfoddolwyr a staff cyflogedig fel rhan o brosiect cenedlaethol, ac rydym wedi mentora ardaloedd eraill wrth ymdrin â'r problemau sy'n gysylltiedig â phwnc mor anodd.

Gwnaethom ddechrau ar gynllun peilot gyda CAB o ran y Rhaglen Addysg Cynghorwyr ym mis Mawrth 2016, a fu'n llwyddiannus iawn. Gwnaethom ddarparu ein hadborth mewn digwyddiad Fforwm y Dyfodol yng Nghaer i ardaloedd eraill yn y rhwydwaith nad oeddynt wedi dechrau ar y rhaglen newydd eto. Hefyd gofynnwyd i ni roi dwy erthygl yn yr adran rhannu gwybodaeth ar ein system rheoli gwybodaeth ar-lein genedlaethol, yn nodi manteision gwirfoddoli a dogfen cyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad parhaus hyfforddeion.

Rydym ni'n gwybod bod ein disgwyliadau'n uchel o ran ein gwirfoddolwyr, mae'r rhaglen hyfforddiant yn ddwys, strwythuredig a heriol i sicrhau bod y cyngor mae'n cynghorwyr yn ei roi i'n cleientiaid yn gyngor cywir. Mae ein gwirfoddolwyr yn rhyfeddol!

'Ar nodyn personol, hwn fydd fy adroddiad blynyddol olaf gan fy mod i'n ymddeol o CAB Sir Ddinbych ar ôl bron i 22 o flynyddoedd. Rydw i wedi mwynhau fy amser yn fawr, fel gwirfoddolwr am dair blynedd ac yna fel aelod o staff cyflogedig yn gweithio ym maes Cyngor Ariannol ac yna ym maes Hyfforddiant. Byddaf yn gweld colled go iawn am yr holl bobl wych rydw i wedi eu cyfarfod a gweithio gyda nhw yn ystod y cyfnod hwn, a dymunaf y gorau i Graham yn y dyfodol wrth iddo gymryd yr awennau fel y Rheolwr Hyfforddiant.'

**Gwnaeth 15 o'n gwirfoddolwyr a oedd yn dymuno mynd ymlaen i waith cyflogedig wneud hynny, gan ddweud bod eu llwyddiant yn dilyn o'r cyfle i wirfoddoli gyda ni**

**£440k**

**yw gwerth ariannol cyfatebol yr amser a roir gan ein gwirfoddolwyr yn ein swyddfeydd.**

**DIOLCH YN FAWR IAWN!**

**Ein cyrsiau mwyaf poblogaidd yn 2015-16 oedd:-**

- **Ymwybyddiaeth ynghylch tai a chyfarfod rhwydwaith Tai Cymru**
- **Cwrs mewnlol ar Lwfans Cefnogaeth a Chymorth / Taliad Annibyniaeth Bersonol / Lwfans Gweini**
- **Gweithdy budd-daliadau**
- **Trais a cham-drin ar sail rhyw**
- **Budd-daliadau a'r rheolau i fewnfudwyr**
- **Deall demensia**

**Dywed Pete, 42;**

**"Gwirfoddoli efo CAB ydi un o'r penderfyniadau gorau rydw i wedi ei wneud. Mae'n rhoi boddhad mawr mynd adre yn gwybod eich bod wedi llwyddo i helpu rhywun y diwrnod hwnnw ac mae'r gefnogaeth yn rhagorol. Gwnaeth gwirfoddoli gyda CAB gynyddu fy hyder ac fe wnaeth y sgiliau a ddatblygais fy nghynorthwyo i sicrhau swydd gyflogedig."**

## Cynhadledd Flynyddol

Daeth mwy na 70 o staff a gwirfoddolwyr i'n Cynhadledd Flynyddol ym mis Mawrth eleni i glywed siaradwyr gwadd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cydlynedd Gwrth-gaethwasiaeth Llywodraeth Cymru a Swyddog Arweiniol Cam-drin Domestig a Rhywiol Cyngor Sir Ddinbych



# Ymchwil ac Ymgyrchoedd

## Ymgyrchoedd cenedlaethol

### Gwnaethom gymryd rhan mewn nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol yn 2015/16

**Ymwybyddiaeth ynghylch Sgamiau** – Roeddem yn yr Eisteddfod Gydwladol yn Llangollen ynghyd â'r tîm Pension Wise i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o sgamiau cyfredol a sut i hysbysu'r awdurdodau amdanynt. Mae'r tîm Pension Wise wedi dod ar draws nifer o bobl mewn perygl o gael eu sgamio gan fod y bobl hyn yn derbyn gohebiaeth gan wahanol asiantaethau ynghylch eu pensiwn. Gwnaethom dynnu sylw at y sgamiau cyfredol sydd o gwmpas, yn enwedig y rhai pensiynau, a rhannu taflenni gwybodaeth ar ffyrdd o osgoi sgamiau.

**Wythnos Fawr Arbed Ynni** – Cynhaliwyd Gwibdaith Arbed Ynni yn Neuadd y Dref y Rhyl, Canolfan Gymuned Eirianfa yn Ninbych a Chanolfan Ni yng Nghorwen. Gwnaethom weithio'n agos â Chyngor Sir Ddinbych, Cymunedau'n Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych, NYTH, Gwasanaeth Ynni Willmott Dixon ac Age Connects Cymru. Roedd lluo o wahanol ddulliau cymorth ar gael, o fesurau arbed ynni sy'n medru gwella effeithlonrwydd ynni cartref, mynediad at gyllid, cyrsiau coleg, mentrau cwmni ynni a gweithgareddau hwyliog i'r plant. Hefyd rhoddwyd cyngor ar leihau biliau ynni, disgowntiau cartrefi cynnes, taliadau tywydd oer a budd-daliadau eraill. Nodwyd manylion y rhai a oedd yn dymuno i ni gysylltu â nhw ar gyfer gwiriad budd-daliadau a chysylltwyd â nhw ar ôl y digwyddiadau. Gwelwyd dros 100 o bobl yn y digwyddiadau a rhoi cyngor iddynt ar uchafu incwm a lleihau tlodi tanwydd.



### Diwygio Lles a Theuluoedd sy'n gweithio –

Rydym ni'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil ar hyn o bryd gyda Chyngor ar Bopeth o ran diwygiadau lles a phobl sy'n gweithio. Penderfynodd Cyngor ar Bopeth ymchwilio i hyn gan fod cynnydd mewn problemau'n ymwneud â budd-daliadau i'r rhai mewn gwaith a phroblemau ynghylch Credydau Treth. Wrth i'r Credyd Cynhwysol barhau i gael ei ledaenu bydd diwygio lles yn cael effaith sylweddol ar lawer o deuluoedd mewn gwaith wrth iddynt drosglwyddo o Gredydau Treth. Mae llawer yn debygol o fod yn wynebu lleihad yn eu hincwm neu ganfod eu bod yn wynebu amodau bod mewn gwaith am y tro cyntaf. Rydym ni wedi cynnal arolwg ymhlith 170 o bobl a byddwn yn cynnal cyfweiliadau manwl yn awr â rhai ohonynt i gasglu rhagor o wybodaeth ar sut y bydd diwygio lles yn effeithio arny'n nhw a'u teuluoedd. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud byddwn yn llunio adroddiad yn nodi ein canfyddiadau.

## Ymgyrchoedd Lleol

### Cyfnewidfa Gwisg Ysgol Dinbych

Roedd y gyfnewidfa gwisg ysgol yn Awst 2015 yn llwyddiannus iawn gyda nifer o rieni wedi medru casglu gwisg ysgol lawn ar gyfer eu plant. Yn sgîl llwyddiant y cynllun rydym ni'n bwriadu cynnal cyfnewidfa arall yn ystod haf 2016.





# Ein Prosiectau

## Gwell Cyngor, Gwell Bywydau

Mae'r prosiect hwn yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw uchafu incwm pobl mewn ardaloedd amddifadus y mae eu hiechyd yn debygol o gael ei effeithio gan dlodi. Mae ein cyngorwyr profiadol iawn yn goresgyn targedau'r prosiect yn gyson trwy helpu pobl â'u problemau budd-daliadau lles, yn enwedig oedolion a phlant ag anableddau. Gan weithio mewn meddygfeydd lleol, maent yn medru atgyfeirio unrhyw un sydd angen cymorth yn uniongyrchol at ein cyngorwyr ni. Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo hawlio Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor heb eu hawlio ledled Sir Ddinbych.

**"Mae'r gwasanaeth yn A1, popeth yn arddechog. Fe aethoch chi y tu hwnt i'ch dyletswydd."**

**Mr Jones**, cleient yn Ninbych

## Ansawdd y Cyngor

Roedd y llynedd yn flwyddyn brysur gan ein bod ynghanol cynllun peilot cenedlaethol gyda Chyngor ar Bopeth lle'r oedd ansawdd y cyngor a ddarparwyd i gleientiaid yn cael ei archwilio yn fisol. Fe wnaeth cymryd rhan roi cyfle delfrydol i ni edrych arnom ni ein hunain o'r tu allan ac adolygu ein arferion gwaith. Roeddem ni'n falch o ganfod ein bod wedi cael sgorau uchel yn gyson o'r dechrau a bod ein systemau ni'n gweitho'n hynod o dda.

**"Roedd yr empathi a'r cymorth proffesiynol gan CAB y gorau rydw i wedi dod ar ei draws erioed"**

**Mrs Ellis**, cleient yn y Rhyl

## Ynni

Tuag at ddiwedd 2015 gwnaethom ddechrau prosiect penodol i roi cyngor ar ddefnyddio ynni yn effeithlon i gleientiaid, a wnaeth helpu'n aruthrol i leddfu tloedi tanwydd yn Sir Ddinbych. Roedd y cyngor mor fanwl fel bod tri o'n staff, yn cynnwys dau wirfoddolwr, wedi eu hariannu i fynd ar gwrs Lefel 3 mewn Effeithlonrwydd Ynni ac fe wnaethant lwyddo i ennill y cymhwyster. Ers hynny mae Dylan, a oedd yn wirfoddolwr ar y pryd, wedi dod yn gynghorydd ynni amser llawn gyda ni, yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych ar gynllun buddiol yn Ninbych Uchaf i wella effeithlonrwydd ynni grŵp o eiddo a hefyd, gan ei fod bellach wedi derbyn hyfforddiant fel cynghorydd budd-daliadau hefyd, i uchafu incwm y cartref trwy edrych ar eu hawl i fudd-daliadau yn ogystal ag ystyried newid cyflenwyr ynni

# £1,495

**Roedd y ddyled gyfartalog yr aelwyd o ran biliau ynni yn £1,495 gan na wnaeth incwm gadw ar yr un gyfradd â biliau cadw cartref cynyddol yn 2015/2016.**

## Cyngor Rheng Flaen

Mae hwn yn brosiect cyffrous wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cyngor gan arbenigwyr ym maes dyledion a budd-daliadau lles. Rydym ni'n arwain partneriaeth gyda Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar draws y ddwy sir.

**"Fe wnaeth cyflymder y gwasanaeth a gawsom greu argraff arnom, ynghyd â'r cynghorydd wnaeth ein cyngori a rhoi hyn ar waith i ni."**

**Mr a Mrs Williams**, cleientiaid yn Rhuthun

## Gweithredu dros Blant

Rydym ni'n gweithio i gryfhau teuluoedd, fel rhan o Brosiect y Bont, trwy ddatrys problemau yn gynnar tra bo'r plant yn parhau i fod yn blant oedran ysgol. Mae'r problemau yn aml yn cynnwys problemau â budd-daliadau, dyledion, problemau tai a lluo o faterion eraill – unrhyw beth a all achosi tarfu mewn teulu. Yn ystod y flwyddyn ddiweddar mae nifer y teuluoedd sydd wedi elwa o'n cyngor wedi dyblu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, sy'n dangos pa mor hanfodol yw ein gwasanaethau ni.

**“Roedd y gwasanaeth yn rhagorol, fe wnaeth godi cymaint o'r straen.”**

**Sarah**, cleient yn Ninbych

## Teuluoedd yn Gyntaf

Y llynedd daethom yn rhan o'r rhwydwaith Teuluoedd yn Gyntaf sy'n darparu cymorth cydlynus i deuluoedd gyda'r nod o wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir Ddinbych. Gan weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac amrediad o asiantaethau partner profiadol ac arbenigol nod y prosiect hwn yw gwella cyfleoedd bywyd teuluoedd yn Sir Ddinbych trwy helpu:

- pobl oedran gweithio mewn teuluoedd incwm isel i gael swydd a gwneud cynnydd yn eu cyflogaeth
- plant, pobl ifanc a theuluoedd, mewn neu mewn perygl o fod mewn tlodi, i gyflawni eu potensial
- plant, pobl ifanc a theuluoedd i fod yn iach a mwynhau lles da
- sicrhau bod teuluoedd yn hyderus, anogol, gwydn a diogel.

**“Nawr mae gen i ffordd ymlaen. Roeddech chi'n dangos dealltwriaeth ac yn gymwynasgar iawn.”**

**David**, cleient yng Nghorwen

## Pension Wise Sir Ddinbych – blwyddyn yn ddiweddarach

Gwasanaeth arweiniad diduedd, am ddim, gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu pobl â chronfa bensiwn cyfraniadau diffiniedig ddeall eu dewisiadau a sut maent yn gweithio i bobl 50 oed a hŷn ydi Pension Wise.

Ein tîm sy'n gweithio ar y prosiect hwn ydi Iwan, Martin a Graham.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2015 - 2016 derbyniodd y tîm gyfanswm o 423 o atgyfeiriadau a arweiniodd at 320 o apwyntiadau gyda chleientiaid cymwys h.y. cleientiaid ag o leiaf un cronfa bensiwn cyfraniadau diffiniedig. Darparwyd un o'r apwyntiadau arweiniad hyn yn y Bala, gyda'r gweddill yn Wrecsam (75), mewn lleoliadau yn Sir y Fflint (92), o gwmpas Conwy (55) a ledled Sir Ddinbych (97).

Roedd cyfanswm gwerth y pot pensiwn yn £19.3 miliwn ac ar gyfartaledd roedd maint cronfa pob cleient yn £60,300.

Yn ogystal â darparu arweiniad ar bensiynau i'n cleientiaid gwnaeth ein tîm nifer o atgyfeiriadau ar gyfer cyngor ariannol a chynghor budd-daliadau ar ran cleientiaid, llawer ohonynt na fyddent wedi gofyn am gyngor fel arall.

Dywedodd nifer fawr o'n cleientiaid eu bod wedi derbyn gwahoddiadau gan wahanol ffynonellau yn cynnig 'adolygiad pensiwn' ac mae ein harweiniad ni wedi tynnu eu sylw at y peryglon ac mae ein rhybuddion am sgamiau wedi argyhoeddi cleientiaid bod angen bod yn ofalus wrth wneud ymholiadau am eu dewisiadau pensiwn.

Yn anffodus, rydym ni wedi dod ar draws achos o un sgam lle'r oedd cleient eisoes wedi'i berswadio i ailfuddsoddi ei gronfa £40,000 mewn darn o'r fforest law yn Ne America.

Cafodd cleient arall ei berswadio i drosglwyddo ei gronfa i'w fuddsoddi mewn busnes cartrefi gwyliau yn Cape Verde. Diolch i weithredoedd oedi ei ddarparwydd gwreiddiol a'n hymyriad ni wedyn, mae'r gronfa yn parhau wedi ei buddsoddi yn y Deyrnas Unedig ac ar gael i'r cleient.





**475**

o gleientiaid wedi dod atom gyda phroblemau'n ymwneud â digartrefedd potensial neu ddigartrefedd



**£1,102**

Roedd y bobl a gysylltodd â ni gyda dyled y Dreth Gyngor yn wynebu dyled o £1,102 ar gyfartaledd, a gallent wynebu gweithredu gan y beili pe na bai'n cael ei dalu.



**£12,000**

oedd swm y setliad a gafwyd i gleient mewn tribiwnlys cyflogaeth



**1950**

o gleientiaid wedi dod atom gyda phroblemau budd-daliadau

**£7m**

o ddyledion wedi eu trin gennym ni yn 2015/16

**£5m**

ychwanegol wedi'i ennill trwy fudd-daliadau a chredydau treth

**8 in 10**

**o'n apeliadau budd-dal yn arwain at gynnydd yn y budd-dal i'n cleientiaid**

**2 in 3**

**o'n cleientiaid â phroblemau defnyddwyr yn gweld eu problem yn cael ei datrys**



- Mae gan y rhai dan 35 oed lefel dyled i incwm o 70% sy'n llawer uwch nag unrhyw grŵp oedran arall

# Tîm Dyledion

## Y Tîm Cyngor Ariannol

Mae'r Tîm Cyngor Ariannol wedi adeiladu ar y bri o gael ei enwi'n **'Dîm Taclo Dyledion y Flwyddyn' Sefydliad Cyngorwyr Ariannol y Deyrnas Unedig yn 2014/2015.**

Roedd y tîm yn ail o ran cipio'r teitl 'Menter Newydd Orau' yng ngwobrau'r Cyngor Ariannol a defnyddiwyd hyn fel sbardun i fireinio a gwella'n darpariaeth cyngor ariannol digidol. Yna gofynnodd CAB cenedlaethol i'r tîm roi cyflwyniad a llunio canllawiau ar ddarparu ei cyngor ariannol digidol fel templed i eraill ei ddilyn.

Fe wnaeth parhau i weithio â chyllidwyr cefnogol fel y Gronfa Loteri Fawr, Grŵp Cynefin a Chymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych ein galluogi i ymestyn lle'r oedd y cyngor yn ei gyrraedd a helpu'r rhai mewn mwyaf o angen cyngor atal problemau ariannol a dyledion argyfyngus.

Mae dyfodol cyllido'r gwasanaeth cyngor ariannol yn ansicr gyda'r cyhoeddiad bod y Gwasanaeth Cyngor Ariannol i'w ddiddymu. Mae gan y tîm ddau brosiect llwyddiannus iawn wedi eu cyllido gan y Gwasanaeth Cyngor Ariannol ac mae'n ymchwilio i gyfleoedd ariannu eraill ar hyn o bryd i sicrhau y bydd ganddo'r adnoddau i gynnal ei waith hanfodol yn creu cymunedau sy'n wydn yn ariannol.

### Dengys ein proffil cleientiaid:

- 3 o bob 5 dan 35 oed yn teimlo nad oedd eu cyllid yn gynaliadwy a'u bod wedi ymrwymo i ormod o ddyledion
- Mae gan y rhai dan 35 oed lefel dyled i incwm o 70% sy'n llawer uwch nag unrhyw grŵp oedran arall
- Mae'r rhai sy'n rhentu ddwywaith fwy tebygol o fod yn orddyledus o'i gymharu â pherchnogion cartref. Mae'r lefelau uchel eiddo rhent yn Sir Ddinbych yn cyfrannu at hyn yn sylweddol

### Sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cleientiaid yw prif nod y tîm. Mae'r llwyddiannau yn ystod 2015/2016 wedi cynnwys:

Herio taliad camwerthu Yswiriant Diogelu Taliadau gwerth £1,600 gan ein bod ni'n credu fod swm sylweddol uwch yn ddyledus i'r cleient. Yna gwnaeth y banc gynyddu'r cynnig terfynol i £16,500. Gwnaethom ni herio'r cynnig uwch hwn ac, ar ôl cynnwys yr Ombwdsmon yn yr achos, a gytunodd gyda ni, rydym yn disgwyl taliad o fwy na £50,000 i'r cleient.

Atal ymgyfreithiwr blinderus a'u cwmni cyfreithwyr mawr, a oedd wedi defnyddio arferion anghyfreithlon yn cynnwys gorfodaeth gan yr Uchel Lys, rhag mynd ar ôl cleient am y swm o £38,000, nad oedd yn ddyledus yn ein barn ni. Darparwyd eiriolaeth dechnegol gref wnaeth arwain at lythyr yn cydnabod y byddent yn rhoi'r gorau i'r holl weithredu i adfer yr arian ar unwaith ac nad oedd ganddynt hawl cyfreithiol i adfer yr arian yr oeddynt yn honni ei fod yn ddyledus, tra hefyd yn cydnabod na ddylent fod wedi bod yn gwneud hyn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Cynnig cymorth i'n cleient a oedd yn brwydro yn erbyn canser, a llwyddo i gael ad-daliadau gwerth mwy na £20,000 am Yswiriant Diogelu Taliadau ar ei fenthyciadau wedi'u camwerthu, a wnaeth ei alluogi i dalu ei ddyledion yn llwyr gyda swm sylweddol dros ben. Gwnaeth hyn gynorthwyo i leihau'r pwysau ariannol arno ar adeg anodd iawn iddo a'i deulu. Yn ychwanegol gwnaethom ei gynorthwyo i hawlio budd-daliadau ar gyfer ei anghenion gofal a disgownt ar ei gostau ynni.

**"Mae credyd ar gael heb addysg yn arwain at bobl ifanc y 'genhedlaeth goll'**

**Paul Roberts**, Rheolwr Cyngor Ariannol